**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 09-02(cofn. drafft)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **22 Mai 2002**
**Amser** **2.00 – 5.30pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Chris Gwyther (Cadeirydd) | Caerfyrddin, Gorllewin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts` | Adran Polisi Economaidd |
| Caroline Turner | WEFO |
| Steve Marshall | Cyfarwyddiaeth Ystadegau |
| Mike Phelps | EcAD |
| David Hobbs | ICM |
| Mike Clancy | ICM |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Graham Meeks | Combined Heat and Power Association |
| Ann Gardiner | Future Energy Solutions |
| Jon Westlake | Comisiwn Coedwigaeth |
| Simon Hewitt | Comisiwn Coedwigaeth |
| Rob Osborne | Pren Cymru |
| John Worthington | Pren Cymru |

Mike Marchant — Pren Cymru

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

John Grimes — Clerc
Sian Wilkins — Dirprwy Glerc

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Datganwyd buddiant gan Christine Gwyther trwy fod gan ei phartner fusnes ymgynghori bychan, a chan Dafydd Wigley sy'n gyfarwyddwr cwmni bychan.
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Cairns a David Davies.

**Eitem 2: Adolygiad Ynni – Gwres a Phwer Cyfun**

1. Wrth gyflwyno ei bapur, cyfeiriodd Graham Meeks at y materion allweddol ynddo: effeithlonrwydd GPC a'i fanteision cysylltiedig i'r amgylchedd ac yn gymdeithasol: natur leol y manteision a roddir ganddo; natur hollbwysig y system gynllunio a systemau rheoleiddio eraill; a'r prif gyfraniad y mae'n ei wneud o ran cyfyngu ar allyriannau nwyon ty gwydr ac atal carbon.
2. Amlinellodd Anne Gardiner dargedau'r Llywodraeth ar gyfer darparu GPC a'r camau i gefnogi hyn. Tynnodd sylw at y ffaith fod gan Gymru oddeutu 3% o gapasiti'r DU – tipyn yn llai na'i chyfran deg.
3. Yn y drafodaeth gwnaed nifer o bwyntiau:
4. Yr oedd offer GPC i'w gael mewn nifer o wahanol feintiau gyda rhai llai oedd yn addas i ardaloedd gwledig. Er hynny, i'r rhan fwyaf o systemau bach y tanwydd o ddewis oedd nwy naturiol ac roedd y ffaith nad oedd ar gael yn llesteirio datblygiad mewn rhai rhannau o Gymru. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau addas gellid defnyddio tanwyddau eraill fel biomas, methan o byllau glo neu fethan o slyri naturiol.
5. Mae'r prinder o offer GPC, o'i gymharu â gweddill y DU, yn rhannol yn adlewyrchu llai o gyfleoedd, fel ysbytai llai, na mewn rhannau eraill o'r DU, ond hefyd nad oedd nwy naturiol ar gael mewn rhai rhannau o'r wlad.
6. Nid oedd Rheoliadau Adeiladu yn cynnig unrhyw gymhelliad uniongyrchol i osod systemau GPC fel y cyfryw ond, er hynny, yr oeddent yn cynnig hyblygrwydd yng nghyswllt defnyddio'r systemau hyn i gwrdd â safonau cyffredinol.
7. Dywedodd Graham Meeks y byddai'n hapus i roi manylion am eu haelodau yng Nghymru **[Gweithredu: G Meeks].**
8. Gwnaed y sylw gan Aelodau yr ymddangosai bod anghysondeb trwy fod yn rhaid i geisiadau dros 10MW GPC dderbyn caniatâd oddi wrth yr Adran Diwydiant a Masnach, tra bo gan y Cynulliad hawl i gymeradwyo prosiectau ffermydd gwynt hyd at 50MW. Cytunodd swyddogion y byddent yn edrych ar hyn ac yn egluro'r

rhesymau. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

9. Yr oedd y Trefniadau Masnachu Trydan Newydd (NETA) yn rhwystr sylweddol rhag datblygu GPC gan eu bod yn gostwng prisiau trydan ac yn cosbi cyflenwyr ysbeidiol. Yr oedd hyn yn lleihau cryn dipyn ar fanteision GPC. Yr oedd strwythur cyffredinol y farchnad yn y sector hwn yn broblem ac roedd prisiau is, a'r risg uwch o ganlyniad, wedi arwain at arafu buddsoddiad yn sylweddol. Cyfeiriwyd at adroddiad Ofgem, *'Report to the DTI on the Review of the Initial Impact of NETA on Smaller Generators'* (Adroddiad ar Gynhyrchwyr Llai) a dywedodd y Cadeirydd y byddai copïau ar gael i Aelodau.
10. Byddai system GPC fach wedi ei gosod mewn ty yn costio tua £600 yn fwy na bwyler domestig gyda photensial tebyg a byddai'r gwahaniaeth hwn yn gostwng i oddeutu £400 pe bai nifer helaeth yn cael eu cynhyrchu. Gallai gosod systemau o'r fath arbed tua £150-200 y flwyddyn gan olygu y byddai'r buddsoddiad yn talu amdano'i hun yn ddigon buan.
11. Yr oedd Awdurdodau Lleol wedi adrodd mai ychydig a arbedwyd o ddefnyddio systemau GPC gyda nifer o ffactorau posibl yn gyfrifol am hyn. Yn gyntaf oll, yr oedd systemau cynharach, a oedd gan rai Awdurdodau Lleol, yn llai effeithlon na'r rhai a oedd ar gael bellach. Gallai fod problem gyda GPC mewn ysgolion hefyd gan mai ond am tua 8 awr yn ystod yr wythnos yr oeddent yn cael eu defnyddio. Gellid goresgyn y problemau hyn trwy greu 'cysylltiad ynni' rhwng cyfleusterau megis ysgolion ac ysbytai a datblygiadau preswyl er mwyn gwasgaru'r defnydd 'brig' a thrwy hynny gynhyrchu llwyth mwy ond llai amrywiol.
12. Yr oedd cost pibelli yn hanfodol i'r pellter y gellid trosglwyddo gwres. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar y lleoliad a'r math o dir. Yr oedd hefyd angen sicrhau safon uchel iawn o inswleiddio pe bai'n rhaid ei drosglwyddo yn bell. Dywedodd Graham Meeks y byddai'n darparu ffigurau ar y gwahanol gostau. **[Gweithredu: Graham Meeks.]**

**Eitem 3: Comisiwn Coedwigaeth/Pren Cymru**

1. Eglurodd Simon Hewitt yr effaith ddifrifol y byddai colli UPM yn Shotton fel cwsmer yn ei gael ar y diwydiant coed yng Nghymru. Er y byddai'n cael effaith andwyol ar gyllideb y Comisiwn Coedwigaeth, yr oeddent yn ei weld yn gyfle i ddatblygu marchnadoedd newydd yn enwedig ym maes darparu tanwyddau adnewyddadwy.
2. Amlinellodd Jon Westlake y nifer o swyddi a grëwyd yng Nghymru gan y diwydiant a bod y rhan fwyaf o'r bobl a oedd yn gweithio mewn coedwigaeth yn dod o gefndir amaethyddol. Tynnodd sylw at y dirywiad diweddar yn y farchnad goed a dywedodd oni fyddai'n adfywio y byddai'n dod yn fwy a mwy anodd rheoli coetiroedd. Ar hyn o bryd, nid oedd marchnad arall i'r sglodion coed a oedd wedi mynd i Shotton o'r blaen. Teimlai fod rôl i'r diwydiant coed gyda chynhyrchu tanwyddau adnewyddadwy ac y byddai'n gallu gwarantu cyflenwadau o lwyth sylfaenol.

3. Eglurodd fod yr economi coed yn fregus, yn bennaf gan fod marchnad dwyrain Ewrop wedi agor ac y dylid diolch i'r nifer fawr o ddefnyddwyr yn y DU a oedd yn dewis coed wedi eu tyfu yma.
4. Eglurodd Rob Osborne fod Pren Cymru wedi ei sefydlu yn ddiweddar a'u bod yn edrych ar y sgôp i gynyddu'r defnydd a wneid o goed Cymreig yn y diwydiant adeiladu. Nid oedd Cymru yn elwa fawr ddim o'r diwydiant adeiladu ac roedd bron y cwbl o'r coed a ddefnyddid i'r pwrpas hwn yng Nghymru yn cael ei fewnforio. Eglurodd mai'r agwedd ganddynt oedd ateb anghenion y farchnad, oedd yn symud fwyfwy tuag at gyn-fodiwlareiddio, a thuag at gynnydd mewn codi adeiladau wedi eu gwneud o goed. Awgrymodd y gellid dadlau, er mwyn bodloni 'gwerth gorau' o ran prynu cyhoeddus, y dylid dewis prynu coed o Gymru bob tro.
5. Mewn trafodaeth, holodd Aelodau a oedd nodweddion coed Cymru yn eu gwneud yn llai addas ar gyfer y dulliau adeiladu presennol. Ateb Pren Cymru oedd, er bod coed Cymru'n wahanol i goed o Sgandinafia, er enghraifft, bod prosiectau ymchwil ar hyn o bryd yn datblygu modiwlau oedd yn ystyried hyn.
6. Awgrymodd un Aelod y dylid edrych ar y diwydiant o safbwynt gwahanol, gan dynnu sylw at y ffaith ei fod yn derbyn cymhorthdal sylweddol, ei fod yn ecolegol andwyol a heb farchnad hyfyw amlwg. Dywedodd y Comisiwn Coedwigaeth eu bod yn cydnabod bod y dylanwadau strategol ar y diwydiant wedi newid a bod nifer o'r ffyrdd y defnyddid coed yn y gorffennol wedi newid, gan nodi'r angen am bropiau mewn mwyngloddiau yn un enghraifft. Eglurwyd bod yr adnodd naturiol yno a bod yn rhaid ei reoli. Yr oedd y broses o symud o goed meddal i goed caled ar waith, ond proses hirfaith fyddai. Nodwyd hefyd nad oedd mewnforion coed fel arfer yn dod o ffynhonnell gynaliadwy.
7. Tynnodd rhai Aelodau sylw at y rhan bwysig y mae'r diwydiant yn ei chwarae mewn gweithgarwch economaidd ac y gall gyflogi mwy o bobl fesul uned dir na'r diwydiant amaeth.
8. Eglurodd y Comisiwn Coedwigaeth bod 40% o bob coedyn a brosesir yn diweddu fel sglodyn ac y byddai'r gwastraff hwn a'r coed yn addas fel tanwydd adnewyddadwy. Nodwyd hefyd bod y seilwaith i ddarparu hyn eisoes yno. Pe na byddid yn dod o hyd i ddefnydd ar gyfer y gwastraff nad oes marchnad ar ei gyfer ar hyn o bryd, yr unig ddewis fyddai ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi mor fuan â 2003.
9. Ystyriwyd bod strategaeth ynni adnewyddadwy a chanllawiau cynllunio clir trwy gynllun 'gofodol' a Nodiadau Cyngor Technegol yn hanfodol i drosglwyddo gwastraff coed yn llwyddiannus i'r sector hwn.
10. Teimlai Aelodau bod y drafodaeth wedi codi nifer o gwestiynau a gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried cyflwyno papur pellach gyda'r Gweinidog Amaeth ar sut ellid symud ymlaen gyda'r syniadau a drafodwyd. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
11. Teimlai Aelodau ei bod yn bwysig cynnwys y defnydd o sglodion coed fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy yn adolygiad y Pwyllgor.
12. Cododd y Comisiwn Coedwigaeth gwestiwn ynghylch contractau ffensio ar hyd traffyrdd gan egluro bod angen edrych ar y rheoliadau fel y gellid defnyddio coed

sbriws.

13. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Tai a Chyllid ynghylch y materion a godwyd a gofynnodd i Pren Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth gysylltu gyda Chlerc y Pwyllgor i roi manylion pellach am y materion penodol. **[Gweithredu: Cadeirydd/Clerc]**

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ddiweddariad llafar byr, sydd ynghlwm wrth ei adroddiad ysgrifenedig.
2. Gan mai ond y bore hwnnw yr oedd Aelodau wedi derbyn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Amcan 1, cytunodd y Cadeirydd i gynnwys trafodaeth arno yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 12 Mehefin. **[Gweithredu: Clerc]**
3. Tynnwyd sylw gan un Aelod at fod angen i'r Llywodraeth fod â chynlluniau yn eu lle i gefnogi gweddill y diwydiant glo yng Nghymru unwaith y byddai'r trefniadau presennol ar gymorth gan y Wladwriaeth yn dod i ben yng Ngorffennaf 2002. Derbyniwyd cadarnhad gan y Gweinidog ei fod wedi cyflwyno achos cryf i'r Adran Diwydiant a Masnach.
4. Cytunodd y Gweinidog i roi ystyriaeth bellach i gais am ddarparu ffigurau ar gymorth rhanbarthol dewisol ac AIG ar ffurf a fyddai'n nodi pa gwmnïau y gellid eu hystyried eu bod yn rhai cynhenid i Gymru. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd a allai'r ffigurau AIG, unwaith y byddent ar gael, gynnwys rhaniad daearyddol. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
5. Tra'n nodi bod y Cadeirydd wedi cytuno i gael trafodaeth ar adroddiad Amcan 1 y Pwyllgor Materion Cymreig rywbryd yn y dyfodol, dywedodd un Aelod, oherwydd yr oedi gyda gwariant ar y rhaglenni hyd yma, y byddai'n rhaid i lefel yr arian cyfatebol o'r sector cyhoeddus y byddai ei angen ar gyfer gweddill y rhaglenni fod yn sylweddol uwch na'r hyn a gynlluniwyd. Pe na byddai'r arian cyfatebol hwn ar gael, byddai'r Cynulliad yn methu â defnyddio'r adnoddau llawn a oedd ar gael o'r Cronfeydd Strwythurol.
6. Yr oedd Aelodau yn falch o weld bod dechrau da wedi'i wneud ar raglen Interreg IIIA ond yn bryderus y byddai gormod yn ymgeisio i'r rhaglen. Yr oeddent hefyd yn gofidio bod yr ymateb i rai mesurau fel Datblygu Gwledig a Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth wedi bod yn siomedig. Derbyniwyd cadarnhad gan swyddogion bod y £12m y soniwyd amdano yn adroddiad y Gweinidog yn ymwneud â cheisiadau ac nad oedd y rhain wedi eu hasesu eto. Dywedwyd hefyd bod rhai o'r mesurau y soniwyd amdanynt gan aelodau yn newydd gan nad oeddent wedi eu cynnwys yn rhaglen Interreg II ac y byddai'n cymryd amser i sefydlu partneriaethau a pharatoi prosiectau. Holodd aelodau ynghylch rhaniad daearyddol y ceisiadau a chytunodd WEFO i ddarparu mwy o fanylion i aelodau. **[Gweithredu: WEFO]**
7. Gwnaed sylw gan un aelod ar y modd sylfaenol y cawsai arian cyhoeddus ei ddyrannu i Gymru a'r effaith yr oedd hyn yn ei gael ar ddatblygu economaidd.

Honnwyd nad oedd y dyraniad presennol yn cydnabod bod cyfran gymharol Cymru o GDP wedi gostwng ers sefydlu'r bloc a bod gwariant ar iechyd wedi codi yn anghyfartal. Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau bod cyllideb yr Adran Datblygu Economaidd wedi cynyddu o 70% dros y flwyddyn ddiwethaf ond cytunodd i drafod gyda'r gweinidog cyllid yr achos dros ddarparu papur mwy manwl ar y mater. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

8. Awgrymwyd y dylai aelodau dderbyn mwy o wybodaeth ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud mewn ardaloedd nad oedd fel arfer yn gysylltiedig â thwristiaeth, a'r cynnydd oedd yn cael ei wneud gan y Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor siarad â'r Partneriaethau hyn ac efallai gydag Awdurdodau Lleol a dywedodd y byddai'r hydref yn amser da i adolygu canlyniadau tymor yr haf. **[Gweithredu: Clerc]**
9. Nodwyd nad oedd gan y Cynulliad reolaeth dros lefel y gwariant gan Swyddfa Cymru a allai effeithio'n uniongyrchol ar lefel yr arian a ddatganolwyd i'r Cynulliad. Mynegwyd pryder nad oedd gan y Cynulliad unrhyw hawl apêl petai'n anhapus gyda lefel y gwariant a ddyrannwyd iddo.
10. Dywedodd rhai aelodau bod nifer o ragolygon economaidd yn awgrymu bod y bwlch yn lledu rhwng GDP Cymru a gweddill y DU. Cytunwyd bod angen bod yn ofalus iawn wrth edrych ar y rhagolygon hyn ond teimlwyd eu bod yn dangos nad oedd y polisïau oedd yn eu lle i gau'r bwlch hwn yn gweithio. Dywedwyd bod y Pwyllgor wastad wedi bod yn anesmwyth ynghylch y targedau yn Cymru'n Ennill a theimlwyd bod angen edrych ar y polisïau sylfaenol os nad oedd y targedau yn cael eu cwrdd. Atebodd y Gweinidog trwy ddweud bod rhagolygon eraill yn rhoi barn wahanol.
11. Dywedodd y Gweinidog mai dim ond ers Rhagfyr 2001 yr oedd Cymru'n Ennill wedi ei gymeradwyo a chan mai strategaeth 10 mlynedd ydoedd, ei bod yn llawer rhy gynnar dweud ai methu neu lwyddo ydoedd. Dywedodd hefyd bod rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol hefyd yn nyddiau cynnar y rhaglen yn ei chyfanrwydd. Dywedodd y teimlai bod Cymru wedi dod trwy gyfnod anodd o ddirywiad byd eang yn dda iawn. Ychwanegodd yr ystyriai lleihau diweithdra'n flaenoriaeth ganolog i ddatblygiad economaidd Cymru a'i fod wedi cynnal cyfarfodydd gyda gwahanol grwpiau ac yn edrych, gyda'i gyd-aelodau o'r Cabinet, ar ffyrdd o ymdrin â'r problemau.
12. Codwyd pryderon gan aelodau hefyd ynghylch gwahaniaethau rhanbarthol o ran derbyn arian grant ond atebodd y Gweinidog mai polisi'r Llywodraeth oedd gwasgaru ffyniant ledled Cymru. Atgoffodd aelodau nad oedd Caerdydd, yn gyffredinol, yn derbyn cymorth rhanbarthol dewisol a bod cyfyngiadau clir ynghlwm wrth Amcan 1.
13. Gofynnodd un aelod faint o arian yr Awdurdod Datblygu oedd yn cael ei wario ym Mae Caerdydd trwy'r cytundeb Adran 165 gyda'r Awdurdod Porthladd a phrosiectau eraill. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r ffigurau. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

**Eitem 5: Cyflwyno'r Gyllideb**

1. Amlinellodd y Cadeirydd broses y gyllideb, a'r rhan gyntaf ohoni oedd papur gan y Gweinidog Cyllid yn amlinellu materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried wrth gynnig ei gyngor.
2. Trafododd aelodau bapur y Gweinidog oedd yn crynhoi'r gwariant terfynol am 2001-02. Yr oeddent yn cydnabod bod y gwariant yn llawer agosach at y gyllideb nag yn y flwyddyn flaenorol a theimlwyd y dylid rhoi clod am y gwelliant ar y flwyddyn cynt.
3. Cyfeiriwyd at y pwysau y gellid eu disgwyl yn y dyfodol agos: gweithgarwch posibl yn dilyn adroddiad y Pwyllgor ar ynni adnewyddadwy; pwysau arfaethedig ar gyllideb WEFO ar gyfer arian cyfatebol; a'r Gronfa Ffordd i Ffyniant. Gobeithiwyd y byddai cynigion y Gweinidog, a fyddai'n cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf, yn ystyried y pwysau hyn.
4. Yr oedd aelodau hefyd yn croesawu'r cyfeiriadau at amddifadedd ym mhapur y Gweinidog Cyllid a mynegwyd y farn y dylid adlewyrchu'r rhain yn iawn yng nghynlluniau'r Gweinidog. Teimlwyd ei bod yn bwysig i raglenni geisio targedu adnoddau yn effeithiol, er mai sylw'r Gweinidog oedd ei bod yn bwysig peidio â bod yn rhy orchmynnol pe bai hyn yn arwain at golli hyblygrwydd.
5. Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd gosod targedau realistig ar wariant yng nghyswllt amddifadedd a theimlwyd y dylid ceisio mesur perfformiad rhaglenni yn eu herbyn, er iddynt gydnabod na fyddai hyn yn digwydd dros nos.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod Cofnodion cyfarfod 8 Mai yn gofnodion cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**